

ADAR YDYN NI

Mae'r adnodd hwn wedi ei gynhyrchu ar gyfer Amdanom Ni yn rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU.

Mae'r adnodd amlddisgyblaethol yma yn uno ysgrifennu creadigol, llenyddiaeth a gwyddoniaeth: gall athrawon ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth i archwilio technegau llenyddol mewn cyd-destunau gwyddonol ac i archwilio'r creadigrwydd sy'n sail i themâu gwyddonol. Gall myfyrwyr hŷn ddefnyddio'r adnodd yn eu hamser ei hunain i hybu eu darllen a chreu syniadau ar gyfer cerddi eu hunain.

CYSYLLTIADAU CWRICWLWM

Lloegr:

Science: Living Things & Their Habitats (Y4), Interactions & Interdependencies (KS3)
English: Writing & Reading Composition
Cyfnodau Allweddol: KS2, KS3

Gogledd Iwerddon:

Language & Literacy: Writing & Reading
The World Around Us: Interdependence, Change Over Time
Cyfnodau Allweddol: KS2, KS3

Yr Alban:

Languages: Literacy & English – Writing & Reading
Sciences: Planet Earth
Lefelau: Second Level, Third/Fourth Level

Cymru:

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Llenyddiaeth
Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Bod yn Chwilfrydig, Y Byd o'n Cwmpas
Camau Cynydd: Cam 3, Cam 4

7-14 OED

Pynciau

- adar
- yr amgylchedd
- sbwriel

Nodweddion llenyddol

- llais ail berson
- delweddauet
- anthropomorffaeth

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar gerdd Aliyah Begum 'Walking to the Train Station', a oedd yn gerdd fuddugol mewn cystadleuaeth flaenorol gan The Poetry Society i bobl ifanc ar gerddi i ddatrys yr argyfwng hinsawdd. Yn y gerdd, mae Begum yn atgofio gwahanol rywogaethau o adar i archwilio'r effaith y mae bodau dynol yn ei chael ar yr amgylchedd. Mae'r adnodd yn cynnwys trafodaeth ac ysgogiadau ysgrifennu i bobl ifanc ymgysylltu â'r testun a chreu eu cerdd eu hunain mewn ymateb.

DECHRAU ARNI

Mae'r gerdd yr ydych ar fin ei darllen yn ymwneud â sbwriel a'r cyfrifoldeb sydd gennym i ofalu am yr amgylchedd. Ydych chi'n meddwl bod sbwriel yn broblem fawr? Allwch chi feddwl am ffyrdd creadigol o annog pobl i roi'r gorau i ollwng sbwriel?



GWYBODAETH ALLWEDDOL

Mae sbwriel yn broblem rydyn ni'n byw gyda hi bob dydd – ar eich ffordd i'r ysgol neu dŷ eich ffrind, mae'n debyg y byddwch chi'n mynd heibio i sawl eitem o sbwriel sy'n cael ei daflu ar lawr. Gall fod yn becyn creision, potel ddiod neu orchudd wyneb. Amcangyfrifir bod y gost o glirio sbwriel bob blwyddyn bron yn £1 biliwn yn y Deyrnas Unedig yn unig. Yn 2020, daeth yr ymgyrch Glanhau Traethau Prydain Fawr o hyd i 425 eitem o sbwriel ar gyfartaledd ar gyfer pob 100m o draethau.



Plastig yw un o'r deunyddiau mwyaf cyffredin a geir mewn sbwriel, ac mae'n arbennig o broblemus oherwydd yn aml nid yw'n fiogdiraddadwy. Bydd bag plastig yn cymryd 10-20 mlynedd i fiogdiraddio, tra efallai na fydd potel blastig byth yn diraddio. Dechreuwyd cynhyrchu plastig ar raddfa fawr yn y 1950au – ers hynny, mae 8.3 biliwn o dunelli metrig o blastig wedi'u cynhyrchu.

Mae llawer o'r gwastraff yr ydym yn ei greu yn cyrraedd y môr yn y pen draw, ac ofnir erbyn 2050 y gallai fod mwy o blastig na physgod yn y môr. Unwaith y bydd yno, mae'n mynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Er enghraifft, mae organebau bach fel plancton yn bwyta microblastigau. Yna mae'r plancton hyn yn cael ei fwyta gan anifeiliaid mwy, gan gynnwys bodau dynol hefyd yn y pen draw. Unwaith y bydd y plastig yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd, nid yw byth yn diflannu mewn gwirionedd.

Fel pob anifail, gall adar gael eu niweidio gan sbwriel. Dyma rai enghreifftiau o sut mae sbwriel yn effeithio ar adar:

- gall arwain at golli cynefin, gan eu gorfodi i ffwrdd o fannau lle byddent fel arfer yn nythu
- gall arwain at fwy o risg gan ysglyfaethwyr, sy'n cael eu denu gan y sbwriel
- gall gwrthrychau miniog eu hanafu, fel poteli gwydr wedi torri neu ganiau tun
- gall eu plu gael eu niweidio gan olew neu saim, gan achosi problemau gyda hedfan ac inswleiddio
- gall sbwriel rwystro llwybr treulio aderyn, felly ni all fwyta mwyach

WYDDOCH CHI?

Cafodd NASA ddirwy unwaith am ollwng sbwriel! Ym 1979, daeth Skylab, gorsaf ofod gyntaf yr Unol Daleithiau, i mewn i atmosffer y Ddaear eto. Cafwyd hyd i falurion o Skylab yn ne-orllewin Awstralia. Rhoddodd yr awdurdodau lleol ddirwy o \$400 i NASA.

Mae'r byd celf yn chwarae ei ran yn y frwydr yn erbyn llygredd a gwastraff. Edrychwch ar y deuddeg [prosiect](#) celf hardd hyn, sy'n taflu goleuni ar broblem plastig untro.

Os ydych chi eisiau darganfod mwy am sbwriel, dyma rai manau y gallech chi ddechrau.

- Cymerwch ran yn rhaglen [Eco-ysgolion](#) Cadwch Gymru'n Daclus.
- [Gwyllo](#) Adar yr Ysgol, gan yr RSPB.

NAWR BETH AM I NI FEDDWL AM Y PWNC YMA AR FFURF CERDD...

Dyma 'Walking to the Train Station', gan Aliyah Begum

WALKING TO THE TRAIN STATION

One day, you will notice the bluebird asthma pump,
Hear the birdsong vapour slice through grey fumes
And soothe the inflamed tarmac of these wheezing streets.

It hides in the tree, modest until it decides to sing.
Its plastic sapphire beak harmonises with the white noise
Of your earphones (only one side of which still works).
It dispels the grey haze that exhausts, but today
Its turbine wings clamour for your attention.

You step over the broken glass that shimmers beneath feet,
The drunk confetti outside the pub from last night.
But you miss the magpie sorting through the shards,
Clinking them into different recycling bins, unseen.

You see the mayonnaise outline of the discarded chips,
Ketchup packet exploded onto the pavement crime scene,
But not the goldfinch that wears her high-vis with pride.
She picks up the crisp packets from grass verges,
Before they reach the polluted depths of a local puddle.

You gaze across these pools of mercury,
And finally notice the world looking back.
Upside down and inside out, it pleads with you,
Asks you to take care of these streets you cross,
Your allotment in the garden of this unruly world.

But you don't listen, distracted by the
Sound of an engine fading further away.
You have missed your train too.

*Ysgrifennodd Aliyah Begum y gerdd hon yn wreiddiol ar gyfer her ar Rwydwaith
Beirdd Ifanc The Poetry Society, mewn partneriaeth â People Need Nature, 2021.*

DAU GYFIEITHIAD

1

Dyma 'Cerdded i'r Orsaf Drenau'. Cyfieithwyd gan Bla Translation.

CERDDED I'R ORSAF DRENAU

Un diwrnod, fe sylwi ar bwmp asthma'r adar gleision,
Clywed anwedd cân yr adar yn sleisio trwy fygdarthau llwyd
A lleddfu tarmac llidus y strydoedd gwichlyd hyn.

Mae'n cuddio yn y goeden, yn wylaidd nes iddo benderfynu canu.
Mae ei big saffir plastig yn cyd-fynd â sŵn gwyn
Dy glustffonau (dim ond un ochr sy'n dal i weithio).
Mae'n chwalu'r niwl llwyd sy'n dod i'r amlwg, ond heddiw
Mae ei adenydd tyrbin yn mynnu dy sylw.

Rwy't yn camu dros y gwydr toredig sy'n sgleinio o dan draed,
Y conffeti meddw y tu allan i'r dafarn o neithiwr.
Ond rwy't ti'n methu gweld y bioden yn sortio trwy'r darnau,
Yn eu clincian i wahanol finiau ailgylchu, heb eu gweld.

Rwy't ti'n gweld amlinelliad mayonnaise y sglodion wedi'u taflu,
paced sôs coch wedi ffrwydro ar safle trosedd y palmant,
Ond nid yr eurbinc sy'n gwisgo ei siaced felen lachar gyda balchder.
Mae hi'n codi'r pecynnau creision o ymylon glaswelltog,
Cyn cyrraedd dyfnder llygredig pwll lleol.

Ti'n syllu ar draws y pyllau hyn o arian byw,
Ac o'r diwedd sylwi ar y byd yn edrych yn ôl.
Wyneb i waered ac o chwith, mae'n ymbil arnat,
Yn gofyn iti ofalu am y strydoedd hyn rwy't yn eu croesi,
Dy randir yng ngardd y byd afreolus hwn.

Ond nid wyt ti'n gwrando, dy sylw wedi troi at
Sŵn injan yn pylu ymhellach i ffwrdd.
Ti wedi methu dy drên hefyd.

CERDDED I'R ORSAF DRENAU

Rhyw ddiwrnod byddi'n sylwi ar bwmp asthma'r fwyalchen,
Yn clywed niwlen cân yr adar yn torri trwy'r mygdarth llwyd
Ac yn esmwytháu tarmac llidiog caethni'r strydoedd hyn.

Fe guddia'n ddiymhongar yn y goeden cyn penderfynu canu.
Ei phig saffir blastig yn cynganeddu â sŵn gwyn
Dy glustffonau (dim ond un ochr sy'n gweithio bellach).
Mae'n chwalu'r tARTH llwyd sy'n llethu, ond heddiw
Mae ei hadenydd twrbein yn mynnu dy sylw.

Ti'n camu tros y gwydr mâl sy'n disgleirio dan dy draed,
Y conffeti chwil wrth ddrws y dafarn ers neithiwr.
Ond ti ddim yn sylwi ar y bioden yn didol trwy'r siwrwd,
Yn eu tincial i finiau ailgylchu gwahanol, heb i neb ei gweld.

Mi weli amlinell mayonnaise y sglodion ar y llawr,
A'r ffrwydrad sôs coch sy'n dynodi safle'r drosedd ar y palmant,
Ond weli di mo'r nico llawn balchder yn ei siaced lachar.
Mae o'n codi'r pacedi creision o'r glaswellt ger y llwybr
Cyn iddynt gyrraedd dyfnderoedd llygredig rhyw bwll gerllaw.

Ti'n syllu ar draws y llynnoedd hyn o arian byw,
Ac o'r diwedd yn sylwi fod y byd yn rhythu'n ôl.
Ar ei ben i lawr a thu chwith allan, mae'n ymbil arnat,
Mae'n gofyn i ti ofalu am y strydoedd hyn ti'n eu croesi,
Dy randir yng ngardd y byd anystywallt hwn.

Ond dwyt ti ddim yn gwrando, ti'n cael dy ddenu
Gan sŵn rhyw injan sy'n prysur bellhau.
Ac mi wyt ti wedi colli dy drên hefyd.

Pa gyfieithiad ydych chi'n ei ffafrio, a pham?

PWYNTIAU TRAFOD

Darllenwch y gerdd a threuliwch ychydig o amser yn meddwl amdani. Nawr trafodwch y pwyntiau isod gyda phartner neu, os ydych chi'n defnyddio'r adnodd yn annibynnol, cofnodwch rai nodiadau.

- Mae'r gerdd wedi'i hysgrifennu yn yr **ail berson** ('ti'). Pwy yw'r 'ti' mae'r gerdd yn cyfeirio ati?
- Sawl cyfeiriad at liwiau allwch chi weld yn y gerdd? Pam ydych chi'n meddwl bod hon yn gerdd mor lliwgar?
- Mae hon hefyd yn gerdd swnllyd iawn. Sut mae seinwedd y gerdd yn adeiladu i fyny at yr ymadrodd 'Ond nid wyt ti'n gwrando'?
- Mae llawer o **ddelweddau** o falurion yn y gerdd – gwydr wedi torri, conffeti, sglodion wedi'u taflu. Sut mae hyn yn gosod y sefyllfa?
- Mae'r bardd yn aml yn cyfeirio gwedd y darllynydd i'r llawr. Ydy hyn yn ymddangos yn anarferol i chi mewn cerdd am adar? Sut allwch chi gysylltu hyn â'r llinellau 'Ti'n sylu ar draws y pyllau hyn o arian byw, Ac o'r diwedd sylwi ar y byd yn edrych yn ôl. / Wyneb i waered ac o chwith'?
- **Anthropomorffaeth** yw pan fydd rhywbeth nad yw'n ddynol fel anifail neu wrthrych yn ymddwyn fel bod dynol. Mewn cyferbyniad, **söomorffedd** yw pan roddir nodweddion anifeiliaid i fodau dynol. Ydych chi'n meddwl bod y gerdd hon yn defnyddio anthropomorffaeth neu söomorffedd, neu'r ddau?
- Sut mae'r bardd yn archwilio'r berthynas rhwng bodau dynol ac anifeiliaid? Trwy wneud cysylltiad rhwng bodau dynol ac anifeiliaid, sut mae'r gerdd yn ein hysgogi i feddwl mewn ffyrdd newydd am yr amgylchedd?



YSGRIFENNU EICH CERDD EICH HUN

Ysgrifennwch gerdd yn defnyddio anthropomorffaeth . Dewiswch anifail, planhigyn neu wrthrych a rhowch rinweddau dynol iddo. Beth yw ei bersonoliaeth? A oes ganddo swydd? Sut mae'n rhyngweithio â'i amgylchoedd?

Ceisiwch ddefnyddio'r dechneg hon i roi sylwadau ar ymddygiad dynol, gan ystyried sut y gallem feddwl am weithredoedd ein rhywogaeth ein hunain yn wahanol pe baent yn cael eu perfformio gan anifail. Sut fydden ni'n teimlo petai gorila yn adeiladu nendwr? Beth os oedd gan gi ei sioe goginio ei hun ar y teledu? Sut gallai brogaod ryngweithio ar gyfryngau cymdeithasol?

NEU

Ysgrifennwch gerdd am sbwriel neu wastraff a sut mae hyn yn effeithio ar yr amgylchedd. Gallech feddwl am daith un darn o blastig, o'r adeg pan gaiff ei greu i'r man lle mae'n gorffen, gan ystyried sut mae'n symud drwy gadwyni cyflenwi byd-eang. Faint o greaduriaid sy'n rhyngweithio ag ef ar ei daith? Sut mae pob un ohonynt yn ymateb i'r cyfarfyddiad â phlastig?



Mae Amdanom Ni yn sioe epig newydd i bawb sydd erioed wedi edrych i fyny tua'r awyr yn y nos a phendroni am ein cysylltiad â'r bydysawd mawr. Wedi ei ddatblygu ar y cyd â beirdd a gwyddonwyr ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig, mae Amdanom Ni yn adrodd hanes y ffyrdd niferus rydym wedi ein cysylltu i'r bydysawd, y byd naturiol a'n gilydd.

Mae Amdanom Ni yn gydweithrediad am y tro cyntaf rhwng 59 Productions – y stiwdio ddylunio arobryn a chwmni cynhyrchu a greodd y cynllun fideo syfrdanol ar gyfer Seremoni Agoriadol Gemau Olympaidd Llundain 2012; Stemettes – y fenter gymdeithasol arobryn sy'n gweithio ar draws y DU ac Iwerddon i ddenu menywod ifanc a phobl ifanc anneuaid i yrfaeodd mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM); a The Poetry Society – un o sefydliadau celfyddydol mwyaf dynamig Prydain yn hyrwyddo barddoniaeth i bob oed.